**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**CYNIGION AR GYFER GWERTHUSO CYMUNEDAU'N GYNTAF**

## Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor am y cynigion ar gyfer gwerthuso Cymunedau'n Gyntaf.

## Crynodeb

2. Mae grwp cynghori allanol wedi cymeradwyo manylion yr ymchwil i werthuso Cymunedau'n Gyntaf, sef rhaglen hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â lleihau tlodi a helpu i wella bywydau'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf yng Nghymru.

## Cefndir

3. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i gomisiynu gwaith i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian Cymunedau'n Gyntaf. Bydd y fath ddadansoddiad yn asesu'r effaith y mae'r rhaglen wedi ei chael o ran adfywio cymunedau difreintiedig yng Nghymru ar lefel genedlaethol, leol a chymunedol, a gellid ei defnyddio i lywio datblygiad y rhaglen yn y dyfodol yn ogystal â pholisïau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio cymunedau.

4. Dyma amcanion a chanlyniadau disgwyliedig y gwerthusiad:

| Amcan | Canlyniad |
|---|---|
| Pwyso a mesur effeithiolrwydd Cymunedau'n Gyntaf o ran yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni a'r effeithau ehangach. | Asesiad o ba mor effeithiol yw'r rhaglen ar y cyfan o ran mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, a dadansoddiad i weld a yw llwyddiant, neu fethiant, Cymunedau'n Gyntaf mewn ardaloedd penodol o ganlyniad i'r rhaglen. |

| | |
|---|---|
| Rhoi cyngor ar ddatblygiad parhaus Cymunedau'n Gyntaf. | Rhoi cyngor parhaus i lywio datblygiad rhaglen Cymunedau'n Gyntaf fel ei bod yn hyblyg ac yn gallu ymateb i'r angen. |
| Asesu pa mor effeithiol yw Cymunedau'n Gyntaf o ran dylanwadu ar y ddarpariaeth o wasanaethau cefnogol a gwasanaethau priff ffrwd i sicrhau eu bod yn gydlynol ac wedi eu targedu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion y gymuned. | Nodi rhwystrau a sialensau a ddaw yn sgil "targedu", "uno" ac "addasu" gwasanaethau a rhaglenni presennol y sector cyhoeddus a rhoi cyngor ar sut y gellid trechu'r rhwystrau. |
| Nodi'r llwyddiannau a'r methiannau â'r hyn a gyfrannodd atynt. | Asesiad o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o ran llywio'r gweithgareddau lledaenu gwybodaeth, ac hefyd o ran datblygu'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a pholisïau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio cymunedau. |
| Gwerthuso effaith Cymunedau'n Gyntaf ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ystyried gwerth am arian. | Asesiad o werth am arian a gwerthusiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd eisoes, sut wariwyd yr arian, ac effaith y gwariant hwnnw. |
| Asesu pa mor effeithiol yw'r prosesau ar lefel gymunedol a chenedlaethol. | Asesiad i weld i ba raddau y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus, a'r meysydd y dylid eu gwella. |

5. Gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar y rhestr dendr ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Bwriedir penodi contractwr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

**<u>Themâu trawsbynciol</u>**

6. Cynhwysiant cymdeithasol yw un o brif egwyddorion cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru *(Cynllun i Gymru 2001)* ochr yn ochr â'i ymrwymiad i gydraddoldeb a datblygu cynaliadwy. Cymunedau'n Gyntaf yw rhaglen arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

**Argymhelliad**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer gwerthuso rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

**Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau**

**Tachwedd 2002**